Cyfres Llanbedr | Hydref, 1931. | Cyf. 31. Rhif 10

Profwch bob peth. Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. — Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Cymdeithas Undodaidd De Cymru.
Undodiaeth.
Dyffryn Cletwr Fach.
Floral Service.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

HANES

CYNULLEIDFAOEDD *UNDODAIDD*

SIR ABERTEIFI

(Gyda Darluniau)

GAN

T. OSWALD WILLIAMS, M.A.

(Gweinidog Brondeifi a Chae'ronnen ; Golygydd 'Yr Ymofynnydd').

Pris 1/-. Trwy'r Post 1/2.

Anfoner archebion (*gyda blaendal*) at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. HYDREF, 1931. Cyf. XXXI. Rhif 10.

Cymdeithas Undodaidd De Cymru.

Anerchiad y Llywydd—T. BOTTING, Ysw., B.A., B.Sc., Cyfarwyddwr Addysg Aberdar—yn Llwynrhydowen, Awst 20, 1931.

Y MAE'N ddrwg gennyf bod rhaid i mi ar y dechreu ymddiheuro am beidio eich annerch yn Gymraeg. Nid yw fy ngwybodaeth o'r Gymraeg yn ddigon da i geisio annerch cynulleidfa fel hon ond gobeithiaf y medrwch fy nilyn yn Saesneg.

Pan ofynnwyd i mi gymryd y Gadair am y flwyddyn fy nghymelliad cyntaf oedd gwrthod yr anrhydedd, canys er fy mod yn gwerthfawrogi'n fawr iawn y parch a delid i mi, yr wyf yn ymwybodol o lawer o ddiffygion. Yn y lle cyntaf, dyma gwestiwn yr iaith y soniais amdano eisoes. Rhagor na hynyna, nid wyf wedi bod mewn cysylltiad agos a gwaith y Gymdeithas, ond y mae'r gwendid hwn wedi'i wella i raddau yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiweddaf. Nid wyf ychwaith yn fyfyriwr mewn Diwinyddiaeth nac Athroniaeth fel nad wyf yn abl i ddilyn fy mlaenorwyr galluog a rhoddi i chwi anerchiad hyawdl ar y llinellau arferol. Ond wedi dywedyd hynyna, dymunaf ddweyd na ildiaf i neb yn fy nheyrngarwch i'r safbwynt Undodaidd. Nid yn ysgafn y daliaf fy ffydd ac fe'i profwyd yn ddifrifol yn ystod fu ugain mlynedd yng Ngogledd Cymru lle ni wyddis braidd am yr achos Undodaidd. Pan ddychwelais i'm tref enedigol—Aberdâr, yr oedd yn fraint fawr i ddychwelyd i'r hen gorlan yn yr Hen-Dy-Cwrdd.

Y mae tymor fy llywyddiaeth wedi bod yn bleser mawr imi yn gymaint ag iddo fy ngalluogi i adnabod rhai o brif ddynion

yr enwad ac i ddysgu rhywbeth mwy am y Capeli y gwyddwn eu henwau o'm plentyndod—yn gyntaf i gyd—y capel enwog hwn mewn hanes—Llwynrhydowen, Alltyplaca, Pantydefaid ac eraill.

Ofnaf na sylweddola aelodau presennol yr enwad bob amser a ddioddefodd ein tadau wrth ymladd brwydr rhyddid crefyddol. Bu raid iddynt yn fynych addoli'n ddirgel gan ddioddef carchar a wynebu angau ei hun er i ni fwynhau rhyddid i feddwl drosom ein hunain ac i addoli Duw yn unol a llais cydwybod. Fel y dywed y Parch. T. Oswald Williams yn darawiadol iawn yn ei Hanes diddorol o Undodiaeth yng Ngheredigion corffora Eglwys y Llwyn ramant hanes crefydd yn yr ardal a chredaf mai da yw i ni gael ein hadgofio o hyn oherwydd yma y dioddefodd ein cyd-addolwyr erlid ynghof dynion y sydd yn bresennol yma heddiw. Cwyd y meddwl ynof a ydym yn gwerthfawrogi y safle yr ym ynddi heddiw gan sylweddoli y cyfrifoldeb y sydd ar ein hysgwyddau i barhau yr ymdrech a ddechreuodd ein teidiau am ryddid mwy.

Un o'n dyledswyddau cyntaf fel lleygwyr yw cynnal gweinidogaeth fyw a galluog yn ein heglwysi. Y mae'n heglwysi ym Morgannwg mewn cyflwr truenus heb ond dau weinidog gogyfer a deg neu ddeuddeg cynulleidfa. Da oedd clywed y bore fod y Parch. J. D. Jones, Hinckley wedi derbyn galwad i Gellionnen.

Bwriadaswn apelio ar ran cronfa y Myfyrwyr ond ym mhwyllgor y bore yr oedd adroddiad y casglyddion mor ddigalon nes penderfynu ohonom ohirio'r casglu ac felly yr apêl. Cyflwynodd ein Trysorydd parchus adroddiad difrifol o'n sefyllfa ariannol i'r pwyllgor hwnnw, a rhaid i ninnau fel lleygwyr sylweddoli bod y Gymdeithas ymhell o fod mewn cyflwr llewyrchus.

Pan euthum gyntaf i Ogledd Cymru fel Athro Cynorthwyol dywedodd y Prifathro wrthyf o ddeall fy mod yn Undodwr na ddaethai erioed i gyffyrddiad ag Undodiaid ond iddo glywed eu bod yn talu ugain swllt y bunt. Ofnaf na fedr y Gymdeithas fostio hynyna heddiw, ac apeliaf yn daer at y lleygwyr ar iddynt wneud a allont er gwella pethau.

Tanysgrifiwn at y Gymdeithas pan ofynnir i ni ond a wnawn ymdrech deg ac a ofyn ein cyfraniad unrhyw aberth ar ein rhan. Fe gwch yn y gwahanol eglwysi yr adroddiad hwn a gobeithiaf yr ystyriwch ef yn ofalus fel y ceir adroddiad mwy calonogol y flwyddyn nesaf.

Ond fel na chyflawna dyn y sy'n byw iddo'i hunan holl waith ei fodolaeth, felly anwybydda eglwys a gyfynga'i hun i'w materion

ei hun ei chyfrifoldeb am lwydd cymdeithas. Dymunaf gyfeirio at un neu ddau gylch o weithgarwch cyhoeddus y teimlaf y dylasai ein heglwys gymryd rhan flaenllaw ynddynt. Y cyntaf yw Cylch Addysg. Fel y gŵyr rhai ohonoch, y mae fy holl fywyd wedi bod yn gysylltiedig ag Addysg, ac ni ryfeddwch o bydd gennyf rywbeth i'w ddweyd ar y pen hwn. Crogaf fy sylwadau ar ddwy hoel. Y gyntaf yw osgo draddodiadol yr Undodiaid tuag at Addysg. Nodir yn llyfr y Parch. Oswald Williams mai un achos o'r cweryl yn y Llwyn oedd awydd y gynulleidfa i roi Deddf Addysg 1870 mewn gweithrediad. Yn y Ddeunawfed a'r Bedwaredd ganrif ar bymtheg cadwai ymron pob gweinidog Undodaidd ysgol fel yr oedd y Capel Undodaidd nid yn unig yn ganolfan meddwl crefyddol ond yn ganolfan Addysg yr ardal hefyd. Cymerer yr Hen-Dy-Cwrdd, Aberdâr, fel enghraifft. Sefydlwyd y Capel yn 1751, a hyd y gwyddom fe gedwid Ysgol yno am yn agos i gant a hanner o flynyddoedd. Mewn cyfarfod yn ddiweddar yn yr Hen-Dy-Cwrdd dywedai un siaradwr fod o leiaf bedwar gweinidog Undodaidd un amser yn cadw ysgol yn Aberdâr.

Yr ail yw fod rhai sylwadau ar Addysg yn briodol heddiw am fod y flwyddyn hon 1931—yn wir—y mis hwn—Awst 1931 yn hanner can mlwyddiant pwysig yn hanes Addysg yng Nghymru—jiwbili cyhoeddi adroddiad Arglwydd Aberdâr ar Addysg Uwch-raddol yng Nghymru. Ni chafodd Arglwydd Aberdâr yn 1881 ond un Coleg Prifysgol yng Nghymru—yr un yn Aberystwyth a sefydlwyd yn 1872 nid ag arian y cyfoethog ond trwy gyfraniadau pobl gyffredin y wlad. Y mae'n nodweddiadol sylwi na thanysgrifiodd ond pedair mil symiau dros hanner coron yr un at y Coleg. Tanysgrifiodd pum mil bobo hanner coron yr un, a chan mil symiau dan hanner coron. Canfu'r pwyllgor na raddiai ond dyrnaid o fyfyrwyr bob blwyddyn, ac fod llawer o'r gwaith o safon y gwaith a wneir yn yr Ysgolion Sir heddiw. Credid y gwneid yn dda pan basiai dwsin neu ugain yr arholiad cyntaf mewn blwyddyn. Fel canlyniad uniongyrchol yr Adroddiad, sefydlwyd Coleg yng Nghaerdydd yn 1883 ac ym Mangor yn 1884. Paratoai'r Colegau yr adeg hon fyfyrwyr gogyfer ag arholiadau Prifysgolion eraill, ond yn 1893 ffurfiwyd Prifysgol Cymru. Yn 1920 agorwyd y pedwerydd Coleg Cenedlaethol yn Abertawe ac yn ddiweddar Ysgol Meddyginiaeth yng Nghaerdydd, fel yn 1931, hanner can mlynedd wedi cyhoeddi'r Adroddiad y mae gan Gymru gyfundrefn Prifysgol gyfan gyda 3,000 o fyfyrwyr a phum cant ohonynt yn graddio bob blwyddyn. Heblaw hyn, y mae gennym ddau sefydliad mawr Cenedlaethol y sy'n gynnyrch yr un mudiad, viz, y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ac Amgueddfa y Genedl yng Nghaerdydd. Cymaint a hynyna am Addysg Prifysgol.

O droi at addysg ganolraddol cawn hanes llawn mor rhyfeddol o lwyddiant yn ystod yr hanner canrif. Yn 1881, canfu Pwyllgor Arglwydd Aberdâr nad oedd ond rhyw ddeunaw cant o blant yn Ysgolion Canol Cymru. Yr oedd y mwyafrif ohonynt yn hen Ysgolion Gramadegol Llanddyfri, Aberhonddu a Bangor. Heddiw ceir yn yr Ysgolion Sir ddeugain mil o blant, ychwanegiad o dros ugain gwaith. Fe gytunwch a mi fod hanes Addysg yn ystod yr hanner canrif yn ramant gwirioneddol. Y mae'r gyfundrefn wedi'i sefydlu'n dda bellach a chyfyd y cwestiwn ba gynnydd a wneir yn ystod yr hanner canrif nesaf. Fel canlyniad eu profiad ystyria Prif Wyr Addysg Cymru y cwestiwn a wneir y goreu er paratoi'r plant gogyfer a'u gyrfa yn y dyfodol. Cred llawer ein bod yn gaethion i'r gyfundrefn arholiadol. Nid yw Athrawon ac Awdurdodau Addysg yn gwbl gyfrifol am yr ystâd hon ar bethau oherwydd y mae'r rhieni a'r cyhoedd yn chwannog i ofyn am dystysgrif fel yr unig dystiolaeth o lwyddiant. Nid â ond rhyw bymtheg y cant o blant yr Ysgolion Sir i'r Brifysgol neu fannau eraill Addysg Uwchraddol a ffynna teimlad anesmwyth mewn rhai cylchoedd yr aberthir i raddau mwy neu lai fudd goreu y pedwar ugain a phump y cant drwy eu gorfodi i ddilyn y cwrs a osodir i'r lleiafrif. Ar hyn o bryd eistedd pwyllgor Cymreig er archwilio peiriannwaith Addysg Uwchraddol ac i awgrymu cyfnewidiadau yng ngoleu profiad yr hanner canrif ddiweddaf.

O ddod i gylch Addysg Elfennol, rhaid edrych yn ôl nid am hanner canrif ond am drigain mlynedd o leiaf at Ddeddf Addysg 1870, ond er nad yw'r cynnydd yma mor olygol ag eiddo Addysg Ganolraddol ac Uwchraddol, nid yw yn llai gwirioneddol. Rhaid cofio tra fod Addysg Uwchraddol yng Nghymru wedi datblygu o ddechreu digon bach yn 1881, fod yng Nghymru drigain mlynedd yn ôl ddwy gyfundrefn o Ysgolion Elfennol—yr Ysgolion Prydeinig a'r Ysgolion Enwadol, fel yr oedd yna rywbeth i adeiladu arno. Rhoes y syniad cul fod Addysg yn ymwneud a darllain, ysgrifennu a rhifyddiaeth yn unig ffordd i amgyffred llawer eangach o waith Addysg. Y mae a wnelo ein hysgolion a chwrtheithio pob ochr i natur y plentyn.

Telir llawer o sylw yn ddiweddar i'r agwedd gorfforol drwy sefydlu Gwasanaethau Meddygol yr Ysgolion a datblygu cyfundrefn iawn o ymarferiad corfforol yn yr ysgolion. Cawsom ddeffiniad ardderchog o swydd Addysg ym mhregeth Mr. Bowen neithiwr, a datblygu natur uchaf y plentyn—yn ysbrydol, moesol, a diwylliannol yw amcan pob gwir Addysgiaethydd (Educationist) heddiw.

A rhagolwg yr Ysgol Elfennol wedi newid yn llwyr yn ystod y genhedlaeth ddiweddaf, teimla Addysgiaethyddion fod yr amser

i gymryd cam arall yn y blaen wedi dod fel ag i ddwyn addysg ein plant i gysylltiad agosach a bywyd. Datblygiad sydd wedi cael cryn sylw, yn arbennig yn y rhanbarthau poblog yw sefydliad Ysgolion y Babanod, yn bennaf er dwyn plant ifainc dan ofal meddyg yr Ysgol mor fore ag sydd yn bosibl oherwydd canfyddir fod nifer mawr o blant a enir yn iach erbyn eu bod yn bum mlwydd oed yng ngafael llawer anhwylder a fedrid ysgoi pe baent dan ofal meddygol iawn.

Y datblygiad arall a gafodd sylw y genedl yn arbennig yn ystod y tair blynedd diweddaf yw codi oedran ymadael a'r ysgol i bymtheg oed, ond ni bydd y cam hwn o fawr gwerth heb i ni ddarpar cwrs mwy proffidiol o lawer i'r plant nag a geir yn yr Ysgolion Elfennol ar hyn o bryd—cwrs nid yn unig a gymhwysa'r plant i fod yn aelodau mwy gwerthfawr o gymdeithas ond a rydd iddynt hefyd y cyfryngau er mynd i mewn yn drylwyrach i etifeddiaeth fawr diwylliant y sydd o'u blaen. Yn y cysylltiad hwn pwysleisiaf yn fawr iawn yr angen o roi i'n plant wybodaeth lwyr o'r Beibl. Gwrthwynebasom ni fel enwad bob addysg ddogmataidd ac enwadol yn yr ysgolion, ond wedi cymryd yr agwedd hon, ofnaf nad ym wedi pwysleisio yr ochr gadarnhaol yn ddigon—y dylasai pob plentyn gael fel rhan o'i dreftadaeth wybodaeth drylwyr o'r Beibl. Yn anffodus y mae dau rwystr mawr i ddatblygiad pellach yn ein hysgolion elfennol. Y cyntaf, yr anhawster ariannol y clywwn gymaint o sôn amdano y dyddiau hyn ond ni chyfeiriaf ymhellach ato. Yr anhawster arall yw bodolaeth y gyfundrefn o Ysgolion y Cyngor ac Ysgolion Enwadol y sydd yn rhwystro pob cynnig at ad-drefnu. Rhyw wyth neu ddeg mlynedd yn ôl gwnaethom ni yng Nghymru ymdrech fawr i setlo y cwestiwn hwn drwy gytundeb rhwng yr Eglwysi a'r Awdurdodau Addysg ond yn anffodus, a chytundeb yn y golwg, gwrthododd rhai o Arweinwyr yr Enwadau ei dderbyn a methiant fu yr ymdrech.

Yr ail weithgarwch cyhoeddus y cawn sylwi arno yw cynnal Heddwch a gwaith Seiad y Gwledydd. Sylfaen Efengyl Iesu oedd Tadolaeth Duw a brawdoliaeth dyn—Tangnefedd ar y ddaear ac i ddynion ewyllys da. Gwelwn wedi dros ddwy fil o flynyddoedd o Gristionogaeth yn y byd gwareiddiedig fod yna wareiddiad wedi datblygu y sydd yn fwy mewn llwyddiant materol—mewn gwybodaeth, gwyddor a lefel gyffredin diwylliant nag y breuddwydiasai y byd amdano hyd yn hyn. Yn ein perthynas bersonol a chenedlaethol cawn ryw fesur o gyflawniad o safon y Cristion o fywyd, pa mor bell bynnag yr ym o'r perffaith. Perchir dyn gan ei gyd-ddyn cyn belled ag y mae yn abl i fyw yr egwyddorion hyn yn ei fywyd bob dydd. Yn ein materion cenedlaethol ceir rheol o gyfraith a threfn a sefydlir ar y deg gorchymyn ynghyd a gofal ychwanegol

am y gwan a'r dioddefus ac y sydd ar linellau gorchymynion y Cristion. Ond ym myd perthynas rhyngwladwriaethol ni theyrnasa cyfraith Crist. Gwanc a hunangarwch a chariad at allu y sydd heddiw'n ben.

Cyflwynodd cenhedloedd ffrwythau cynnydd rhyfeddol gwyddor er cynhyrchu peiriannau dinystr, ac wedi diwedd y rhyfel i derfynu rhyfel, y mae'r gweithrediad hwn wedi mynd ymlaen gyda chyflymder cynhyddol.

Dywedai yr Athro Einstein—y gwyddonydd athronyddol—yn ddiweddar "fod y rhai a gred fod perigl rhyfel drosodd yn byw ymharadwys y ffol." Wynebwn heddiw filitariaeth lawer mwy grymus a dinystriol na'r un a ddug oddiamgylch drychineb y Rhyfel Mawr. Y mae'n weddol sicr y golygai Rhyfel byd eang arall ddinystr ein gwareiddiad a'i sylfeini wedi'u siglo'n enbyd gan y rhyfel diweddaf. Ein hunig obaith er osgoi y perigl yw cymhwyso Efengyl Crist at ein materion rhyngwladwriaethol. Y mae gan yr Eglwysi gyfleu ardderchog i gynhyrfu pobl Ewrop i benderfynu y bydd i ryfel beidio, a heddwch i ffynnu ar y ddaear, nid yn unig tu fewn i'n terfynau ni ein hunain ond rhwng cenedl a chenedl.

Undodiaeth.

(Pennod o Lyfr Newydd Gwili).

YR ochr draw i Fôr Iwerydd, ymdaenai Undodiaeth yn Lloegr Newydd a mannau eraill, fel gwrthweithiad yn erbyn Calfiniaeth Uchel, ac fel prawf nad yw Calfiniaeth, mwy nag Arminiaeth, yn rhagfur cadarn yn erbyn y ffordd a elwir yn heresi o addoli'r Un Duw yn unig.

Ymledodd y mudiad newydd, cyn diwedd y ganrif, i Gymru. Paratoesid y ffordd iddo eisoes, fel y gwelsom, gan y Presbyteriaid a droesai'n Ariaid, a chan y Bedyddwyr rhyddfrydig, ac yr oedd rhai Cymry, megis Thomas Glyn Cothi, Charles Lloyd a David Jones, *The Welsh Freeholder*, eisoes yn Undodiaid. Ganed David Jones yng nghyffiniau Llanymddyfri, ac aeth i Goleg Homerton, yn 1783, i'w addysgu'n weinidog unionGred ; eithr, cyn gorffen ei gwrs yno, newidiodd yn ei farn ar y Drindod a Pherson Crist, a mudodd i'r Coleg newydd yn Hackney, lle'i dewiswyd rhag llaw yn athro cynorthwyol. Ysgrifennodd ei "Lythyr" yn erbyn yr esgob Horsley, yn 1790, ac "Amddiffyniad o'i Lythyr," yn erbyn rhyw glerigwr o esgobaeth Ty Ddewi, yn

1791. Daeth ei brif waith allan o'r wasg, yn 1792, sef "*Reasons for Unitarianism, or the Primitive Christian Doctrine*, addressed to the Serious Consideration of the Inhabitants of the Diocese of St. Davids: with a Preface containing Animadversions on the Bishop of St. David's Charge. And an Appendix in which the Different Arian Tenets are stated and examined." Amddiffynnodd Joseph Priestley hefyd, pan ymosodwyd ar ei dŷ, ac y llosgwyd ei lyfrau a'i gêr at wyddoniaeth, ac ar gymeradwyaeth Priestley, fe'i dewiswyd yn olynydd iddo yn ei gapel yn Birmingham, yn Hydref 1792. Ysgrifennodd, ar ôl hyn ei "*Farewell Epistles* to the Bishop (lately of St. David's) now of Rochester," yn 1794. Yn ei *Reasons for Unitarianism*, dadleua dros Undod Duw, ac yn erbyn Duwdod Crist a'r Ysbryd Glân. Beirniada'r sawl a wêl gyfeiriad at Grist yn Es. ix, 6 a Mal iii, 1, a deil nad oedd Crist yn ei ystyried ei hun yn hanfodol dda, fel Duw, ond yn hytrach yn rhoi pwys ar yr Undod Dwyfol. Myn mai'r ffordd y daethpwyd i'w ystyried yn Dduw oedd drwy waith athronwyr cenhedlig yn tra-ddyrchafu sylfaenwyr eu crefydd, ac yn rhinwedd eu syniadau am ddoethineb a gallu Crist yn dal bod y Duwdod yn trigo ynddo. Hwy a ddechreuodd ei osod ar yr un lefel â Duw. Yna, daeth y Tadau Platonaidd, a datblygwyd ganddynt hwythau drachefn y syniad am ei gynhanfodiad, a'i ogyfuchter â'r Tad, yng Nghredo Nicea (tt. 152, 153). Deil Jones i Samuel Clarke ac ereill o'r Ariaid dysgedig rwystro datblygiad Undodiaeth, eithr i Lardner, drwy ei Lythyr ar y Logos, wneuthur Ariaeth yn athrawiaeth amhosibl i'w choelio, a phroffwyda yntau y daw cwymp i Ariaeth cyn pen ennyd hir. I Undodiaeth yr oedd y maes yn y dyfodol, ac o ran hynny, yr oedd hyn i raddau eisoes yn wir, oblegid buasai Law, esgob Carlisle, farw yn Undodwr proffesedig, ac yr oedd lliaws o offeiriaid Eglwys Loegr—gwŷr fel Lindsey, Disney, Jebb, Wakefield, Robertson, Evanson ac eraill, wedi ymneilltuo o'i chymundeb (tt. 177, 178). Nid oedd cyfod rhwng y syniadau Ariaidd am Grist fel yr ysbryd goruwchnaturiol a greodd y cyfanfyd a thystiolaeth y Testament Newydd amdano fel dyn a gynyddai mewn doethineb (tt. 189, 190), a deuai dydd Undodiaeth a chrefydd rhesymol yn y man.

Mab Dafydd Llwyd, Llwyn-rhyd-owen, ydoedd Charles Lloyd (1766—1829), a cheir ganddo yn ei hunan-gofiant(1) adroddiad noeth a chwerw am ei ddyddiau addysg yn Abertawe (lle symudesid Coleg Caerfyrddin, er 1784), am ei helyntion fel gweinidog ac ysgolfeistr mewn amryw fannau yn Lloegr, ac am ei ddychweliad

(1) *Particulars of the Life of a Dissenting Minister* (1813. Reprint, G. Eyre Evans, 1911).

i'w hen ardal yng Nghymru. Aeth yn weinidog i Evesham, yn 1788, a thystia ei fod yn bur uniongred ar y pryd. Eithr aeth ei farn am bethau crefyddol drwy gyfnewidiad llwyr yn fuan. "On the person of Christ," meddai, "I embraced the views of the moderately high Arians" (p. 82). Ac â rhagddo i fynegi iddo newid ei farn am ddull a deiliaid bedydd, a dyfod i gryn helbul gyd â'i gynulleidfa oherwydd hynny (tt. 100ff). Ymddiddanodd â chymydog o weinidog i'r Bedyddwyr ar y mater, a chadarnhawyd ef yn ei farn, er iddo, ar ôl hyn, farnu mai peth dros amser yn unig ydoedd yr ordinhad. Ond sylwodd ar beth arall a phwysicach, sef ei fod ef a'i gyfaill yn newid eu barn am Berson Crist. "He was fast renouncing," meddai, "his orthodox faith, but was not disposed to adopt my Arian sentiments. They soon lost their hold of myself. I believe that we mutually assisted each other in abandoning the views of the person of Christ which we had adopted, and in embracing those which we have ever since maintained" (p. 102). Gellir deall oddi wrth hyn fod Charles Lloyd yn Undodwr, er tua diwedd 1789, neu ddechrau 1790. Wedi ffarwelio ag Evesham, aeth Lloyd at gynulleidfa o Fedyddwyr Cyffredinol, amrywiol iawn eu barn—Ariaid yn bennaf, ond yn cynnwys Sosiniaid hefyd ynghyd â Deistiaid—yn Ditchling, Sussex, ym Mai 1790, a thystiai, cyn myned yno, mewn llythyr at Benjamin Davis, Lerpwl, brawd David Davis, Castell Hywel (Ebrill 24, 1790), ei bod yn anodd iddo gael lle. "Few congregations have candour enough to receive me," meddai, "on account of my notions of baptism. . . . On the other hand, few baptist societies would accept of an Unitarian.(1)"

Cytunir, fynychaf, er hynny, mai Thomas Evans (*Thomas Glyn Cothi*) oedd yr Undodwr cyntaf yng Nghymru. Ganed T. Evans yng Nghapel Sant Silin, gerllaw Brechfa, Sir Gaerfyrddin, Mehefin 20, 1764. Ceir bod ei dad o olygiadau rhydd ar athrawiaethau crefydd, ac iddo brynu i'w fab amryw draethodau. Yn eu plith yr oedd traethawd Priestley ar "Anghenraid" neu "Reidrwydd." Cyrchai Thomas Evans yntau i addoli i Alltyplaca, gan gerdded deuddeg milltir o ffordd, yn ôl ac ymlaen. Tua 1786, trwyddedodd ei dad ran o'i dŷ iddo at gynnal gwasanaeth crefyddol, ac o gylch 1794 codwyd Tŷ Cwrdd Cwm Cothi iddo, y capel Undodaidd cyntaf yng Nghymru. Ceir yn yr *Ymofynnydd* am Fai 1852 (tt. 101—105) ei "Ddatganiad Ffydd . . . gerllaw y Gwernogau . . . Medi 11, 1794." Fe ddywed yn hwn: "Yr wyf yn cael fy argyhoeddi oddi ar ymofyniad diduedd o feddwl y Testament Newydd, mai crediniaeth gadarn yn *Un Duw*, ac yn Iesu Grist fel

(1) *Lloyd Letters*, p. 37.

Mab a Chennad Duw, yw y briodol grediniaeth apostolaidd. . . . Yr wyf yn credu ar dystiolaeth yr Ysgrythyrau mai *Dyn* oedd Iesu Grist megis ninnau, yn feddiannol ar yr un natur a'r lleill o ddynolryw, yn gwahaniaethu yn unig trwy y gallu a'r anrhydedd hynod a gafodd ei roddi iddo fel Anfonedig oddiwrth Dduw, a thrwy ei rinwedd a'i dduwioldeb rhagorol ef ei hun."

Dilornid Thomas Evans a'i bobl gan Ddafydd Amos, y baledwr, oherwydd eu credo, fel hyn :

> " Hwn yw eu hathraw hyffol, sy'n barnu'n anystyriol
> Nad oedd yr Iesu grasol ond dyn naturiol dwys " ;

ac oherwydd ei sêl dros olygiadau Priestley a'u lledaeniad, fe lysenwid Thomas Glyn Cothi yn " Briestley bach." Cyhoeddodd bregeth ar *Amddiffyniad o Benaduriaeth y Tad*, yn 1792, " y bregeth Undodaidd gyntaf a gyhoeddwyd yn Gymraeg.(1) " a chyfieithiad o draethawd a atgyhoeddasai Priestley ar Dreial Elwall am heresi.(2) ac nid oedd gyfieithydd diwytach nag ef o lenyddiaeth Undodaidd, yn ystod yr ugain mlynedd nesaf.(3) a dechrau ar y cyfieithiadau o ysgrifau Priestley a W. Freud a geir yn y tri rhifyn o'r *Drysorfa Gymmysgedig* a gyhoeddodd yn 1795.

Ond, ag eithrio ambell ŵr anturiaethus fel David Jenkin Rees, o Lwyd Jack, a Thomas Jenkins, o Rydybene, dal at olygiadau Ariaidd a wnâi eglwysi David Davis, a glynu wrth Richard Price, yn hytrach na dilyn Joseph Priestley, hyd ddiwedd y ganrif. Dychweliad Charles Lloyd i Gymru oedd i beri cyfnewidiad barn, a chreu terfysg meddwl ac ysbryd. Yr oedd hyn, tua diwedd 1799. Dychwelodd i amaethu Coedlannau Fawr, y dreftadaeth a adawsid iddo wedi marw ei frawd, Richard, ac er iddo ddymuno ar y cyntaf am fod yn gyd-weinidog a David Davis, gwelodd yn fuan nad oedd yr hen weinidog yn chwennych mo hynny. Gwahoddid eraill—a rhai o bell—i lanw Sulian yn yr eglwysi, ond gadewid Lloyd yn ddisylw. O'r diwedd, wedi i gorlannau heblaw'r Llwyn geisio am ei wasanaeth ar adegau amhenodol, gofynnodd David Davis iddo wasanaethu ar yr adegau penodedig. Eithr dywed Lloyd fod Davis yn holi, ar ôl hynny, beth oedd eu meddwl am y *Sosin*, neu pa fodd y carent *Fedyddiwr* yn weinidog arnynt. Taenid

---

(1) R. J. Jones, yn y *Geninen*, Gorff. 1905, t. 181.

(2) *Gorfoledd y Gwirionedd* (1793). Cyhoeddesid ef gan Priestley yn 1772, 1780 a 1791.

(3) Gweler *Geiriadur Bywgraphyddol* J. T. Jones, Cyf. I, tt. 289, 290, a'r traethawd arno yng *Ngardd Aberdar*.

su ar led hefyd ynghylch heresi'r dyfodiad, er iddo, medd ef, adael allan bynciau athrawiaethol o'i bregethau.(1) Gwahoddwyd Lloyd gan ddwy o'r cynulleidfaoedd i fod yn gyd-weinidog â Davis, yn y man, ac er i'r hen weinidog alw cyfarfod yn Llwyn-rhyd-owen â'r amcan i'w bobl benderfynu a oeddent yn cydsynio â gwaith dwy eglwys arall yn galw Charles Lloyd fel cyd-weinidog, yr oedd mwyafrif ohonynt yn ei erbyn. Ar ôl hyn, ar Sul cymundeb, achwynodd Davis yn chwerw ar waith y ddwy eglwys anffyddlon, a chrefodd ar ei bobl yn y Llwyn am sefyll yn blaid iddo yn ei henaint. Mynegodd hefyd ei awydd am i'w fab, Timothy, ar derfyn ei gwrs yn y Coleg, fod yn gynorthwywr iddo.(2) Yn wyneb yr anffodion a gâi drwy'r fferm, nid bwriad Charles Lloyd, erbyn hyn, meddai ef, ydoedd aros yn yr ardal nemor yn hwy, ac felly cyflawnwyd dymuniad David Davis o berthynas i'w fab.

Wedi'r cwbl, cerddasai pethau yn dra chyflym ym Mhantdefaid a Chapel y Groes, ac nid oedd yn y naill eglwys na'r llall ddymuniad cryf am wasanaeth yr hen weinidog, mwyach*. Y gwir yw, bod ei Ariaeth yn rhy ddôf o beth yn eu golwg. Nid oedd yr holl aelodau yn Llwyn-rhyd-owen, ychwaith, wedi eu rhwymo yng nghwlwm tangnefedd, ac yn ôl David Davis ei hun,(3) ymadawodd "rhyw 9 neu Ddeg" oddi yno.

Ni allai David Davis atal y dilyw, er i'r mwyafrif lynu wrtho yn y Llwyn. Dywed Charles Lloyd yn y *Monthly Repository* am 1817 (t. 743) (4) hyn am ddatblygiad y "cymundeb newydd": "As a consequence of the movement (y Mudiad Undodaidd ym Mrechfa o dan Thomas Evans), the disciples who had been silently formed in the bosom of the old connection, saw fit to form themselves into a society of Professed Unitarians, and two chapels were erected—one at Llwynygroes and the other at Pantydefaid. These were the mother churches of this respectable name (Unitarian) in the principality of Wales. They are the first in point of time, and it is firmly believed the first of real consequence and information. They are pure and unmixed. The chapel at Llwynygroes owed its erection principally to the exertions and greatly to the con-

(1) *Particulars*, pp. 151ff.

(2) Dywedir iddo bregethu oddi ar y testun—"Hwy a barchant fy mab i."

(3) Mewn llythyr, dyddiedig Chwefror 2, 1803.

(4) Cymharer y *M. Repos.* am 1818, p. 770, a'r *Lloyd Letters*, p. xiv.

* Braidd yn amwys yw'r frawddeg hon oherwydd nid oedd gynulleidfaoedd ym Mhantydefaid a Chapelygroes cyn hyn. Y cyffro a berodd y rhwyg yn y Llwyn ac Alltyplaca—a'r bobl anfoddog yno a ddechreuodd Eglwysi Capelygroes a Phantydefaid.—Y Gol.

tributions of D. J. Rees." Codwyd y capel cyntaf Pantdefaid yn 1802, a dyddir achos Capel y Groes o'r un flwyddyn. Bugeiliodd C. Lloyd a D. J. Rees y corlannau hyn, ar eu dechrau, a daeth John James yn ôl o Goleg Exeter i fod yn weinidog ar Bantdefaid, yn 1803, a Chapel y Groes, yn 1804. "Two societies were formed," ebe Charles Lloyd, yn ei hunan-gofiant,(1) "on a broad and liberal foundation. No creed was adopted to try the principles of the members. All were to be received who manifested a due regard to a virtuous conduct. The sentiments generally prevailing were, however, strictly unitarian. Two places of worship were in due time erected, while we conducted our worship, *pro tempore*, in registered dwellings. . . . Our success was rapid and considerable. The whole country was roused to inquiry: and curiosity, or a better principle, brought people to our assemblies from the distance of many miles. . . . When, on the completion of our chapels, we were formed as churches, eighty persons sat down at the Lord's Table in one of them, and sixty in the other. They are now instructed by one of those young men that were rejected for want of orthodoxy at our seminary, who completed his education at a distant place."

Dyffryn Cletwr Fach.

WEDI croesi'r afon i'r tu dehau a dringo'r llethr yr ydym yn cael ein hunain ar y gwastadedd ger hên gapel Bwlchyfadfa. Wrth syllu arno, gwelwn ei fod wedi ei droi'n dŷ annedd. Hawdd yw tallu trem yn ôl i gyffiniau trigain mlynedd—dyddiau ein maboed oedd rhain, a gweld ein hunain yn yr ysgol Sul, a ni'r plant, canol oed a hynafgwyr yn dysgu a dweyd adnodau. Ymhlith yr olaf 'roedd amryw'n ymylu ar y pedwar ugain oed, ac y mae'r englyn a ddysgasom flynyddoedd lawer yn ôl yn dod i'n côf :—

"Diau irder ei bedwardeg—i ddyn
A ddaw fel ar redeg ;
Unwaith y daw y saith deg,
Ofer chwennych fawr chwaneg."

Ychydig o'r oedran hyn sy'n mynychu yr ysgol yn bresennol. Dyma'r adeg pan oedd y mawr a'r bach yn ymdrechu eu gorau i ddysgu'r pwnc erbyn y Sabath y byddai'r "Ysgol yn ateb." Hwn oedd y cyfnod pan oedd canu'r Bwlch ar ei uchelfannau

(1) *Particulars*, p. 165.

ac yn ennyn edmygedd y cymdogaethau cylchynnol. Yr oedd dwyster, sêl a brwdfrydedd y blaenoriaid a'r arweinyddion y pwnc a'r canu yn ddiarhebol.

Ni wyddem y pryd hyn fawr am ramant fawr bywyd ond yr oeddem yn paratoi ar ei chyfer. 'Roedd gennym athrawon hyddysg a goleuedig, a gellir dweyd eu bod wedi cael gweledigaeth yn yr iawn gyfeiriad, a chawsom ein hyfforddi ganddynt. Gwnai eu hesiampl a'u cynghorion nawseiddio, nid yn unig yr eglwys ond yr ardal yn ogystal. Ond ofnwn fod yr eglwys erbyn heddiw wedi colli ei dylanwad a'r cartref wedi colli ei swyddogaeth. Mae y mwyafrif mawr o'r cedyrn golofnau hyn wedi syrthio a'r rhan fwyaf o honynt yn huno eu hun olaf yn erw Duw ger y capel newydd. Gwnawn uno a Glan Geirionydd i ddweyd :—

" Mae rhai mewn bedd yn huno
A'r lleill ar led y byd ;
Nid oes un gloch a ddichon
Eu galw hwynt ynghyd."

'Roedd yr oedfaon hefyd yn lluosog a llewyrchus. Hyfryd beth ar fore Sul oedd gweld y bobl yn dyrfaoedd yn cyrchu i'r gwasanaeth a hynny heb ymgynghori â'r hinfynegydd. Deg o'r gloch oedd amser dechreu'r cwrdd ac yr oeddem fel rheol yn gryno ger y Capel rhyw bum munud cyn amser cychwyn. Dacw Davy Davies, Synod-ganol y blaenor hynaf yn dod i'r " moddion " wedi iddo deithio dros bedair milltir. Gwyddai pawb yn awr ei bod yn Sul cymundeb oblegid yn llogell dde ei gôt fain yr oedd potelaid o win ar gyfer y cymun, a'i gwddf yn datguddio ei hun am nad oedd digon o eigion yn ei boced iddi. Cerddai yn wysg ei ochr wrth fynd trwy fwlch y cyntedd rhag iddo daro wrth y piler a thorri'r botel. Aem yn awr yn fach a mawr ar ei ôl i'r capel i ddisgwyl y pregethwr. A phob un yn ei le a'i lygad ar y drws, wele'r gweinidog y Parch. William Thomas (Gwilym Marles) yn dyfod i mewn ac yn cerdded mor union â saeth i gyfeiriad y côr mawr a swp o redyn yn ei law aswy, wedi eu casglu ar ei daith i fyny trwy'r dyffryn tlws, gesyd hwy yn ei het ar y bwrdd ac yn ddiymdroi heb yngan gair wrth neb y mae'n esgyn i'r pulpud, wedi sychu chwys—yr oedd wedi teithio o Landysul, pellter o chwe milltir. Y mae'n dechreu'r gwasanaeth drwy ddarllain ei hoff emyn o Salmau Iolo :—

" Dŵr y bywyd sy'n ffynhonni
Dan dy orseddfainc Di fy Nuw ;
Drwy'r holl fydoedd mae'n afoni,
Ffrwd ein iechydwriaeth yw."

Dyn o ymddangosiad urddasol ac o bersonoliaeth fawr oedd Gwilym Marles. Yr oedd ganddo lais tyner a chroyw. Tua pump ac wyth o uchter, corff teneu, llygaid treiddgar, syth ei gerddediad, mor ysgafn ar ei droed a'r ewig ac am dano wisg bregethwrol.

Fel ei gyfoedion yn y weinidogaeth—y Parchn. T. Thomas, Pantydefaid; W. James, Llandysul; John Davies, Alltyblaca, etc., yr oedd yn gwisgo barf hirllaes. Yr oedd agwedd arddunol a phatriarchaidd ar bregethwyr yr amser gynt ond heddiw ni fynnant wisgo barf ac oblegid hynny y maent wedi amddifadu eu hunain o gyfran helaeth o bersonoliaeth a dwyster, yn ôl fel y mae'r gwrandawyr yn eu deall. Hanner canrif yn ôl rhy anhawdd oedd meddwl am bregethwr heb farf.

Pan ddaeth John, Tairnant gartref o gapel Seion fore Sul, gofynnodd Mary ei wraig iddo: "Ddewisoch chwi weinidog newydd yco heddiw?" "Do," meddai ef. "Wel, shwt ddyn yw e," meddai hi, "a oes barf ganddo yn cyrraedd ail fwtwm o'i wasgod?" "Oes," meddai ef, "mae yn cyrraedd hyd at y trydydd bwtwm o fewn i ddim." "O" meddai hi, "y mae'n siwr o fod yn ŵr duwiol te, yeh yti, nid oes dim barf gan y pregethwyr sy'n codi 'nawr, ac y maent yn ymddangos i mi fel pe baent newydd ddychwelyd o benyd-wasanaeth" (Returned convicts). "Aros, aros," meddai John, "beth sydd gan farf i wneud a duwioldeb pregethwr?" "Onid yw'r Bibl yn gorchymyn hynny," meddai hi. "Taw sôn, taw sôn, beth mae e'n wend?" ebe ef." A dyma hi yn adrodd yr adnod. "A dywedodd y brenin, arhoswch yn Jericho hyd oni thyfo eich barfau chwi, ac yna dychwelwch." Mae'r adnod i'w gweld" ebe hi, "yn II Samuel x, 5. A dyna ddarlun y 'Swper Olaf'; mae pob un o honynt yn gwisgo barf ac y mae golwg fendigedig arnynt."

O'r hên bregethwyr patriarchaidd oedd yn gwasanaethu ym Mwlchyfadfa a'r cylch yn nyddiau ein maboed nid oes ond un o honynt ar ôl, y Parch. D. Evans, Cribin, y mae ef yn aros fel Cofeb am yr hên frigâd. Dymunwn iddo ddyddiau lawer eto i fod felly.

Traethu'r oeddem am Gwilym Marles. Cawsom gyfle i'w adnabod yn dda, gan imi fod o dan ei weinidogaeth am dros ddeg mlynedd. Yr oedd un nodwedd arbennig yn perthyn iddo, sef ei ddifrifoldeb, a braidd fe ellid dweyd fod yn agraffedig ar ei wedd "fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn"; sef yw hynny nad oedd ef yn cymryd diddordeb mewn ymddiddanion amrwd a dichwaeth. Anaml iawn y gwelid ef yn gwenu, a gormod o orchwyl i ni yw cyfrif am hyn. Yr oedd yn ysgolhaig mawr ac yn berchen ar athrylith fawr. Dywedodd Carlyle fod pob perchen athrylith

yn *humorous*. A rhywun arall a sylwodd fod llawenydd yn un o articlau bywyd. Tueddwn i gredu fod ei deimladau wedi eu llethu gan drais a gormes y gwŷr hynny oedd yn tra-arglwyddiaethu ac yn bradychu egwyddorion ymhob dull a modd. Y mae ef yn cael mwy o'i barchu heddiw nag erioed. Gwelodd y gŵr mawr hwnnw—O. M. Edwards ddigon o gymhwyster yn ei allu a'i athrylith i'w restru gydag enwogion "Cyfres y Fil." Côf gennym fod yn bresennol pan oedd ef yn gwasanaethu mewn angladd gweddw oedd wedi gweld caledi mawr wrth fagu tri o blant. Ei destun oedd "Tebyg yw hi i long marsiandwr : hi â ddwg ei hymborth o bell," Diarhebion xxxi, 14. Pregeth rymus tuhwnt i amgyffred y gwrandawyr. Darluniodd y weddw'n mynd i daith bell i weithio wrth y cynhaeaf gwair yn y weirglodd draw ac yn canlyn y cynhaeaf hwn deuai y cynhaeaf llafur a'r weddw yn gorfod gadael ei phlant bychain gartref a chychwyn gyda'r wawr i'r rhosydd pell i weithio'n ddiwyd gan golli chwys er mwyn ennill lluniaeth i'r plant. Ac wedi dychwelyd at ei phlant yr oedd mawr lawenydd oblegid yr oedd hi wedi cael torth o fara haidd a thocyn o gaws ac yr oedd gweld y plant yn ymborthi ar rhain yn achos llawenydd iddi. "Ond" meddai "nid yw y dyn cyfoethog a diog yn cael y llawenydd hyn am nad ydyw wedi ennill ei ymborth trwy chwŷs eu wyneb. Erbyn heddiw" eb efe "y mae hi wedi cyrraedd y porthladd a stormydd magu teulu drosodd."

Gwasanaethodd hefyd yn angladd y cyntaf a gladdwyd yn y Bwlch—Eliza Jones, merch Thomas a Mary Jones, Henbant, ger Talgarreg, yr hon a fu farw Mawrth 17, 1878, yn 7 mlwydd oed. Ar ei charreg fedd mae pennill o'i eiddo :—

"Cymerwyd fi o dyner gôl
Fy rhiaint ac ni ddof yn ôl ;
Yn flaenffrwyth lliaws o bob oed,
Y beddrod cyntaf i mi roed."

Y mae'r hanes uchod yn union a chywir yn ôl fel y mae'r côf yn ei bortreadu i ni.

Glan Glowon.

Floral Service.

AR y dyddiadur am fis Awst (perthynol i'n capel Undodaidd bach ni yn Lerpwl) gwelwn gogyfer ag un Sul,—Floral Service. Gwyddwn am Sul y Blodau, ond chlywais i erioed am "Floral Service" ; felly heb wybod pa wledd oedd yn

fy aros, cyfeiriais fy nghamre tua'r capel ar y Sul hwn yn gynharach nag arfer.

Y tu allan nid oedd yno yr un arwydd flodeuog iawn, oherwydd anaml oedd y rhai a droent i mewn i'r adeilad bach llwyd, ond nid oedd ond eisieu i mi agor y drws cyn sylweddoli gwir ystyr y "Floral Service". Ar y grisiau o flaen yr allor gwelwn flodau prydferth yn rhes ar ôl rhes, yn uchaf o'r cwbl, y lili wen yn ei holl burdeb, a'r ffenestri wedi eu haddurno lawn mor brydferth.

Cyn hir, dyma'r haul yn disgleirio drwy'r ffenestr amryliw, gan roi ryw wawr annisgrifiadwy ar y cyfan oll.

Dyma'r organ mawr yn dechreu seinio, a phersawr y blodau fel pe yn cael ei gario 'nôl i'r gynulleidfa ar adenydd y nodau melodaidd. Pe na bai yr un anian gerddorol yn perthyn i chwi, fedrech chwi byth llai na chanu y bore hwnnw, a chanu wnaeth pawb o'r ieugaf i'r hynaf. Disgwyliwn i'r pregethwr ddweyd rhywbeth am y blodau, wrth gwrs, ond y cyfan a ddywedodd i foddloni 'nghywreinrwydd oedd "The floral service this evening will be conducted by the ladies of the congregation."

Felly nid oedd dim i'w wneud, ond aros hyd yr hwyr.

A'r merched wnaeth y cwbl y noson honno, hyd yn oed mynd â'r blychau casglu oddiamgylch: digon naturiol wrth gwrs, oherwydd nid tarawiadol fuasai gweled dynion ymysg blodau!

Ond beth bynnag, ni soniwyd yr un gair am y blodau wedyn yn yr hwyr, ac er i mi ofyn i sawl un cyn dechreu'r cyfarfod, beth oedd ei ystyr, ni wyddai neb, rhagor nag y cynhelid cyfarfod o'r fath unwaith bob blwyddyn.

Ceisiais feddwl ynof fy hun wedyn, beth allasai fod y tu cefn i'r syniad o gadw "Floral Service", a gofynnais i mi fy hun beth oedd diben y blodyn o gwbl.

Harddu yw gwaith blodyn, onide, ac yn y lleoedd mwyaf di-olwg, fe welir blodyn o ryw fath. Cuddia'r blodyn mêl lawer boncyff coeden ddigon hyll; tŷf yr eiddew dros hacrwch llawer i hên fagwyrydd, ac ar y clogwyn mwyaf danheddog fe glywir clychau'r grug yn galw'r gwenyn ynghyd. Onibai am ambell i flodyn bach yma a thraw, digon digalon a fuasai llwybrau bywyd yn aml.

Llonni yw gwaith blodyn hefyd. Beth sy'n fwy cydnaws na gweld blodyn yr eira yn ymddangos ym mis Ionor mor eiddil a'r

eira ei hun, neu'r Dai Twm Dili yn dawnsio i groeshawu'r Groglith ?

Os byth y teimlwch yn ddi-gysur ewch allan am dro i'r ardd, ac fe rydd y blodau ystyr arall i fywyd i chwi. Mae lliwiau'r blodau yn ddigon i godi calon, heblaw'r perarogl sydd ganddynt, ac mor falch mae'r claf yn yr ysbyty o gael blodyn bach i'w gysuro 'nawr ac yn y man !

Fe welir heddiw lawer i ymdrech ddigon aflêr i liwio gruddiau, ond

" Pwy a liwiodd rudd blodeuyn
Pwy fu yma, ond fy Nuw ? "

Gyda Duw mae'r " colour-scheme " yn berffaith ; Efe ŵyr gytbwysedd lliwiau, ond pan ddaw dyn i'r fusnes, yna daw gwallau a methiantau i'r golwg hefyd. Mae'r friallen o dan y geulan wedi ei lliwio yr un mor ofalus a'r lili, er mai'n tuedd ni yn fynych, hwyrach, yw edrych dros ben y friallen am ei bod mewn man mor ddi-sylw.

A sylwasoch chi erioed yn fanwl ar y blodyn ? Mae wedi ei baentio hyd at y galon ; nid rhyw brydferthwch arwynebol mohono ; mae calon hwn fel ei wisg allanol, yn ddidwyll. Efallai mai dyna paham y mae bob amser yn edrych yn llon, pwy ŵyr ?

Mae'r blodyn hefyd yn wir adlewyrchiad o'r Cariad di-drai sydd wedi ei greu, a rhydd i ni lawer achos i gywilyddio. Dywedodd ryw fardd Seisnig fel hyn :—

" For every leaf that dawns to petal
But hints the angel-plan."

Nid yw Duw mor fawr nad oes ganddo ofal dros y blodyn lleiaf, a beth arall a fuasai mor deilwng o gael gwasanaeth iddo'i hun, a'i alw yn " Floral Service " !

Tyfu, blodeuo, ffrwytho ; gwywo ; dyna'i hanes llawn, a dyna hanes bywyd dyn hefyd, ond sylwch faint mae blodyn yn ei wneuthur mewn oes mor fer,—harddu, llonni drwy feddu calon bur, ac adlewyrchu'r Cariad di-ddiwedd sydd yn ei gynnal ef a ninnau.

Wrth eistedd yn ddistaw ar ddiwedd y gwasanaeth i offrymu gweddi, fedrwn ni ddim llai nag adseinio yn ddistaw bach y ddwy linell honno :—

" God ! make my life a little flower
That bringeth joy to all."

R.E.E.

Y Syniad o Dduw.

Gan yr Hybarch. A. A. DAVID, Esgob Lerpwl.

III.

DUW YNG NGHRIST.

DYWEDWYD mai "gwaith yr Eglwys Fore yn bennaf oedd perswadio pobl a gredant yn Nuw i gredu yng Nghrist." Y gwrthgyferbyniol i raddau pell yw'n gwaith ni, sef perswadio'r rhai a gredant yng Nghrist i gredu yn Nuw." Fel y gwelsom yn barod, ni wnaethom ein meddwl i fynu eto fod Duw yn Grist-debig, ac nad oes ynddo Ef ddim an-Nghrist-debig o gwbl. Pan ofynnodd Phylip i'r Iesu ddangos iddo'r Tad a ddisgwyliai mewn atebiad weledigaeth apocalyptaidd? Neu a geisiai'r hyn a geisir gan gynifer y dyddiau hyn, fynegiad clir, awdurdodol, athrawiaethol, ddeffiniad neu o leiaf ddisgrifiad o'r Duwdod mewn geiriau? Gallwn ddychmygu dau reswm na roddwyd hynny iddo. Yn gyntaf, ni allai Iesu hyd yn oed ddyfeisio ffurf o eiriau dealladwy i'w oes Ef a fuasai hefyd yn gyfaddas i'r oesoedd a ddeuai. Y cwbl fedrai Ef wneud a geiriau oedd yn gyntaf gywiro syniadau anghywir am Dduw a seilid ar gamesbonio datguddiedigaethau rhannol yn y gorffennol, a'r casgliadau a dynnid oddiwrthynt, ac yna amlinellu gwirioneddau uchel ac eang am dano i bob cenhedlaeth eu cymhwyso a'u cyfleithu i'w hiaith ei hun drosti ei hun. Un yw Duw a santaidd; mae Duw'n agos, mewn natur fel yn yr ystafell ddirgel: Ysbryd yw Duw; Duw, cariad yw. Ond erys rheswm arall dros fod geiriau'n annigonol i gyfleu'r datguddio hwn. Ni ellir esbonio person mewn geiriau o gwbl mewn modd i arall fedru nabod y person hwnnw trwy y geiriau hynny.

Ceisiwn yn fynych ddatguddio ein gilydd felly, ond pa sawl bywgraffiad lwydda yn hyn?

Yr unig ffordd i nabod person yw byw gydag ef, a sylwi'r modd yr ymagwedda i wahanol amgylchiadau, a phersonau eraill o amrywiol nodweddion, a gadael iddo ddatguddio'i hun. "A ydwyf gyhyd o amser gyda chwi, Phylip, ac nid adnabuost fi? Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad." Gallwn ni i egluro i ni ein hunain, cyn belled ag y mae'n esboniadwy, y bwriad tragwyddol yn y meddwl dwyfol a ffrwythodd yn yr Ymgnawdoliad. A chaniatau mai ewyllys Duw yw datguddio ei Hunan i berffeith-

rwydd, gwelwn mai amhosibl oedd gwneud hynny ond trwy ymostwng i'w astudio a'i nabod mewn personoliaeth ddynol.

Wrth ddarllen ein Hefengylau, gan hynny, gyda'r amcan hwn, gwyliwn Grist gyda'i waith ymhlith y dynion y deuai i gyffyrddiad â hwy yn ei ddydd. Gwelwn yn y modd hwn y Tad gyda'i waith ymhlith y dynion a'n hamgylcha ninnau ac a'i wynebant Ef yn awr. Sylwn ar Grist yn ei ymwneud a'r rhai oedd agosaf ato yn nyddiau ei gnawd, gan eu dysgu nid yn gymaint trwy athrawiaeth bendant a thrwy eu haddysgu i ddysgu. Ei ymagweddiad Ef i'r rhai a ddysgent ganddo yw ymagweddiad Duw i ninnau. Gwylia dros, ac arwain ein cynnydd. Ni wna bethau yn hawdd inni, ond prawf ni, ac ymddirieda ynom mewn cyfyngder a pheryglon, a dangosodd yr ymddiriedaeth hon trwy ein gosod mewn rhyddid fel y gallom dyfu.

(*I'w barhau*).

YR HYDREF.

Mae'r helmi 'leni eto
Yn gwarchod tŷ fy nhad,
A gwn wrth wylio'r fyddin gref
Mai'r hydref sy'n y wlad.

Er bod ei fflach yn llachar
Hyd eitha'r bellaf ffin;
Mae ôl y storm, a lliw y bedd
Ar wyneb deilen grin.

Mor hael y mae yn arllwys
Ei aur ar hyd y fro,
Ac yntau'n dod, a rhoi o hyd—
Yn dod, a rhoi, cyn co'.

Os ydyw gwrid yr hydref
Heddiw yn toi y wlad,
Diolchaf i fod byddin gref
Yn gwarchod tŷ fy nhad!

Prengwyn. Ifan Jones.

CYWIRO GWALL.—Galwyd fy sylw yn ddiweddar at Adroddiad Cyrddau'r Llwyn, lle gadawyd allan enw un o'n myfyrwyr—Evan David Davies o Lanbedr. Y mae yntau erbyn hyn wedi dechreu ar ei gwrs colegol ym Mhrifysgol Manceinion. Credaf hefyd y dylasem ddymuno'n dda i Tom Lewis o Alltyplaca—yntau wedi dechreu ym Mhrifysgol Cymru.

Marwgof.

MEDI 1, Thomas (Tommy) Jones, Blaencletwr, Talgarreg yn 34 oed. Y dydd Iau cyn hynny symudwyd ef i'r Ysbyty i Aberaeron lle'r aeth dan driniaeth lawfeddygol. Ofnid o'r cychwyn fod y drwg wedi mynd yn rhy bell. Gwireddwyd yr ofn a diangodd yntau. Mab ydoedd i Edward ac Ellen Jones, Rhydsais ac o dŷ ei dad hanai o deulu sydd wedi bod yn flaenllaw iawn gyda'r achos ym Mwlchyfadfa bron o'i gychwyn. Pan yn byw gyda'i rieni yn Rhydsais bu yntau'n bur ffyddlon hefyd ond gan fod Blaencletwr ym mhell o'r lle a gofalon mewn fferm helaeth yn fawr nis gallasai'n rhwydd ddilyn y gwasanaethau fel cynt, er hynny daliodd i gofio'r achos o flwyddyn i flwyddyn. Bachgen o rodiad cywir oedd Tommy—un a hoffid yn fawr gan ei gyfoedion. Cariai wên ar ei wyneb i bobman ac er i'r hin a'r amgylchiadau fod yn anffafriol weithiau daliai ef i gredu fod amser gwell i ddilyn. Edrychai ar yr ochr olau bob amser. Yr oedd yn feddiannol ar gorff esgeiddig a chadarn ac eto syrthiodd yn gynar ar y ffordd. Gadawodd briod ieuanc (merch i Thomas a Rachel Evans, Blaenaugwenog) i wylo ei golli ynghyd a phedwar o blant ag sydd yn rhy ieuanc i sylweddoli'r hyn sydd wedi digwydd. *A* cydymdeimlad ardaloedd cyfain allan atynt hwy, y rhieni, y brodyr a'r chwiorydd, a'r oll o'r perthynasau. Mynych, mynych y gwireddir y geiriau "Byr ac ansicr yw bywyd." "Meddwl byw ac eto'n marw." Claddwyd y Gwener dilynol ym Mwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins; W. Davies (E), Talgarreg; Wynne Williams (A), Pisgah; T. O. Williams, M.A., Llanbedr; Vaughan Pughe (B), Brynhafod.

Nodion yr Eglwysi.

AT YR EGLWYSI.—Cyn y gall Trysorydd y Gymdeithas dalu y "grants" y cytunwyd arnynt yn y Pwyllgor Blynyddol yn Llwynrhydowen, rhaid iddo wrth swm gweddol dda o arian. Carem apelio at yr Eglwysi sydd heb ddanfon eu cyfraniadau am 1931 i fewn ar iddynt eu gyrru'n ddioed i Mr. W. S. Jones, M.A., Fronheulog, Penparke, Aberystwyth.

TRYSORFA'R MYFYRWYR.—Mae'r casgliadau at y Drysorfa hon yn ddyledus yn awr. Y Trysorydd yw y Parch. E. Rosalind Lee, M.A., Cefnbryn, Penmaen, Swansea.

PWYLLGOR YR HYDREF.—Cynhelir hwn yn Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, Iau Hydref 8. Bydd yn gyfarfod agored a chaiff pob un gyfleu i godi unrhyw fater ag a all fod o fudd i'r Eglwysi.—E. O. JENKINS.

Y GYMANFA GERDDOROL.—Gan nas gellir disgwyl Rhaglen ein Cymanfa o'r Wasg am beth amser eto, oherwydd fod rhai o awduron Tonau y Plant heb ateb i roddi caniatad i argraffu eu tonau, rhoddir yma restr o Donau a'r Emynau sydd yn y Rhaglen i'r rhai mewn oed, fel y gall y gwahanol Eglwysi ddechreu ar eu gwaith o ymarfer y rhai hynny. Un Dôn yn Adran y Plant geir yn y "Perlau Moliant," sef "Gweddi Plentyn," ond ceir a ganlyn ynddo :—

Tôn			Emyn
Abends	...	...	94
Danville	...	...	340
Marles	...	...	368
Thanet	...	...	433
St. Aelred	...	...	431
Cwm Rhondda	...	...	176
Austria	...	...	240
Llanwrtyd	...	...	40
Alexander	...	...	238
Rhydygroes	...	...	312
Gwalchmai	...	...	28
Cymundeb	...	...	71
Hyfryd Wlad	...	...	411

Hyfrydol gyda'r Descant.

LLANBEDR A CHAERONNEN.—Da oedd gweld fod Llanbedr a Chaeronnen yn mynnu llanw pulpudau Morgannwg. Gyda bod y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., o Gaeronnen yn dychwelyd i Drebanos a Gellionnen dyma'r newydd am y Parch. Tom Jones, Notais yn mynd i Gefncoed y Cymer—gyda llaw Llanbedr y sydd wedi cadw pulpud Cefncoed i fynd—gydag Hathren annwyl a Chararra. Dymuna Caeronnen a Brondeifi flynyddoedd meithion i'r ddau i lanw'r pulpudau hyn.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMRAEG.

— Cynhelir —

Cyfarfodydd Chwarterol

Y GYMDEITHAS YN YR

Hen-Dy-Cwrdd . .
Trecynon, Aberdar

Mercher ac Iau, Hydref 7 a'r 8, 1931

Trefn y Cyfarfodydd—

Nos Fercher am 6.30.—Gwasanaeth a Dwy Bregeth. Pregethir gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen a'r Parch. S. Evans Bowen, Alltyplaca.

Dydd Iau am 2 o'r gloch.—Pwyllgor y Gymdeithas. *Llywydd*—T. Botting, Ysw., B.A., B.Sc., Y.H., Aberdâr.

Dydd Iau am 3 o'r gloch.—Gwasanaeth Saesneg. Pregethir gan y Prifathro J. Park Davies, M.A., B.D., Coleg Caerfyrddin.

Nos Iau am 6.30.—Gwasanaeth a Dwy Bregeth. Pregethir gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandysul a'r Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr.

Estyn Eglwys yr Hen-Dy-Cwrdd groeso calon i bawb.

E. R. Dennis, *Gweinidog.*
J. Thomas, *Ysgrifennydd.*

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.